

17/12/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Yn y lle cyntaf, ga i ddiolch i bob un ohonoch, fel rhieni, am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol yn ystod y tymor diwethaf a thu hwnt. Yn ystod y cyfnod heriol yma i bob un ohonom, rydym fel staff wedi gwerthfawrogi'r negeseuon o gefnogaeth a'r diolch rydym wedi eu derbyn gan ein rhieni.

Ar ddiwedd y tymor, hoffwn estyn diolch arbennig i ddisgyblion yr ysgol am eu hagwedd a'u hymroddiad gwych wrth wynebu heriau eleni - heriau nad yw disgyblion erioed wedi eu profi o'r blaen. Maent wedi bod yn barod iawn i addasu i ddulliau dysgu newydd, delio â chyfnodau i ffwrdd o'r ysgol a'u hathrawon a'u ffrindiau, ac ymateb yn hynod o gadarnhaol i gyfres o reolau a threfniadau hanfodol i les a diogelwch pob un ohonom. Mae eu cyfraniad at fywyd yr ysgol yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan eu bod yn ymdopi â hyn oll gyda chwarteisi, hiwmor a gwên!

Mae **adroddiad interim eich plentyn** neu adroddiad 'Noson Rieni' i flwyddyn 11 wedi ei e-bostio at gyfeirid e-bost eich plentyn. Mae rhieni disgyblion blwyddyn 7 hefyd wedi derbyn gwybodaeth am gyrhaeddiad eu plentyn yn dilyn y profion CATs yn gynt yn y tymor. Os ydych am drafod adroddiad eich plentyn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi ychydig **mwya o fanylion am gymwysterau 2021 ar gyfer disgyblion blynyddoedd 10-13eg**. Gweler y [llythyr yma](#) yma at ddisgyblion am fanylion. Yn ogystal, mae yna wybodaeth ddefnyddiol ar wefan CBAC ar gyfer llinell amser [asesiadau 2021](#) ac adnoddau [Arweiniad i'r Arholiad](#). Mae'r disgyblion eisoes wedi derbyn y wybodaeth yma yn eu 'Timau' blwyddyn a byddwn yn gallu rhannu mwy pan gawn y wybodaeth ar ddechrau Ionawr.

Mae presenoldeb y disgyblion yn eu gwarsi wedi bod yn dda iawn yn ystod yr wythnos hon. Rwyf am bwysleisio, **nid oes disgwyl i unrhyw ddisgybl i wneud unrhyw waith ysgol dros yr Ŵyl**. Ymlacio a mwynhau mewn modd diogel gyda'r bobl yn ein cartrefi neu ein swigod yn unig yw'r ffocws ar gyfer y gwyliau!

Edrychwn ymlaen at groesawu ein disgyblion i gyd yn ôl ym mis Ionawr. Yn unol â chyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru a'r wybodaeth yn y [llythyr yma](#) gan Gyfarwyddwr Addysg Dros Dro Abertawe, mae disgwyl i ysgolion sicrhau eu bod yn ddiogel i ddisgyblion ddychwelyd iddyn nhw ar ôl y gwyliau. Felly, mae amser penodol wedi ei ddarparu yn ystod y ddau ddiwrnod cyntaf er mwyn asesu sefyllfa'r feirws yn y gymuned, adolygu ein mesurau diogelwch Cofid fel bod ein safle mor Gofid ddiogel ag sy'n bosib, asesu lefelau staffio ac i baratoi ar gyfer anghenion dysgu cyfunol. Yn sgil hyn, gweler drefniadau dychwelyd i ddisgyblion Bryn Tawe yn y flwyddyn newydd:



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

E-bost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth: Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

- **Dim disgyblion i mewn ar y 4ydd a'r 5ed o Ionawr.** Maent yn ddiwrnodau i staff yr ysgol baratoi yn llawn ar gyfer derbyn disgyblion yn ôl yn ddiogel i'r ysgol.
- Bydd disgyblion blynyddoedd **10, 11, 12 a 13eg yn dychwelyd i wersi byw yn yr ysgol o ddydd Mercher y 6ed o Ionawr.**
- Bydd disgyblion **blwyddyn 8 yn dychwelyd i ddysgu byw yn yr ysgol o ddydd Gwener yr 8fed o Ionawr.**
- Bydd disgyblion **blynyddoedd 7 a 9 yn dychwelyd i ddysgu byw ar ddydd Llun 11eg o Ionawr** ac erbyn y dyddiad hwnnw, bydd **pob disgybl yn ôl ar safle'r ysgol.**
- Bydd **disgyblion 7-9 yn derbyn gwersi o bell pan nad ydynt yn yr ysgol.**
- Byddwn yn cynnig darpariaeth gwarchod argyfwng i rieni disgyblion bl. 7, 8 a 9 sydd yn weithwyr allweddol ar ddiwrnodau pan nad yw eich plentyn yn mynychu ar gyfer gwersi byw. Llenwch yr [holiadur yma](#) os oes angen y gwasanaeth arnoch os gwelwch chi'n dda.
- Byddwn hefyd yn cynnig darpariaeth i ddisgyblion penodol fel y gallwn gefnogi eu lles.

Hyderaf fod y wybodaeth yma yn rhoi elfen o sicrwydd am bryd fydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol wedi'r gwyliau ac yn eich caniatâu felly i chi gynllunio gwarchod plant yn ôl yr angen. Mae'r uchod, wrth gwrs, i gyd yn ddibynnol ar effaith y feirws ar ein cymunedau o'r 4ydd o Ionawr ymlaen. Fe all newid, ac o bosib bydd angen i ni symud i ddysgu cyfunol gyda mwy o grwpiau blwyddyn, neu fe allwn hefyd wahodd fwy o ddisgyblion yn ôl yn gynt. Byddaf yn cyfathrebu gyda chi yn y ffyrdd arferol os oes unrhyw drefniadau gwahanol.

Ga i ddymuno Nadolig Llawen a diogel i chi a Blwyddyn Newydd yn llawn gobaith a llwyddiant!

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth: Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales